

Annwyl Gwsmer,

Ymgynghoriad cyhoeddus lleol - Dweud eich dweud

**Swyddfa Bost Uplands
4-6 Sgwâr Gwydr, Uplands, Abertawe, SA2 0HD**

Rydym yn bwriadu symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i leoliad newydd: 29 Cilgant Uplands (a arferai fod yn *Rainbow*), Uplands, SA2 0NX, lle bydd yn dal i gael ei rhedeg yn null un o'n prif ganghennau, yn amodol ar ymgynghoriad.

Pam ydym yn argymhell y symud hwn?

Fel y gwyddoch efallai, mae ein postfeistri yn rhedeg canghennau Swyddfa'r Post ochr yn ochr a'u busnesau manwerth preifat, ac mae'n bwysig eu bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'u hadnoddau er mwyn sicrhau cynaliadwydd eu busnes a'r gwasanaeth Swyddfa Bost yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, mae'r postfeistr wedi gweld cyfle i symud y gangen hon i leoliad newydd er mwyn parhau i gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned leol.

Byddai'r adeilad arfaethedig, sydd ar hyn o bryd yn wag, yn cael ei adnewyddu er mwyn cynnwys siop gyfleustra a Swyddfa Bost Uplands. Mae'r postfeistr o'r farn y byddai'r symud hwn yn help i ddiogelu mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post yn lleol tra'n cynnal hyfywedd eu busnes. Ein blaenoriaeth yw diogelu ein gwasanaethau yn y gymuned yn yr hirdymor, a byddai adleoli Swyddfa Bost Uplands yn caniatáu i ni barhau i ddarparu gwasanaeth Swyddfa Bost i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol.

Hoffem gael eich cymorth

Rydym nawr yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac mae eich adborth yn bwysig i ni oherwydd bydd yn ein helpu i wneud penderfyniad. I gael rhagor o fanylion am y gwasanaethau arfaethedig a hygyrchedd, ewch i grynodedb gwybodaeth y gangen yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghorol hon.

Am beth yn hollol rydym yn ymgynghori?

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y materion a ganlyn:

- **Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?**
- **A ydydch chi'n creu y gallai unrhyw faterion cymuned leol eraill deimlo effaith neu gael effaith ar adleoliad arfaethedig y Swyddfa Bost?**
- **A oes unrhyw beth y gallem ei wneud er hwylustod cwsmeriaid?**

Dechrau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol	20 Hydref 2026
Diwedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol	01 Rhagfyr 2026
Mis y newid arfaethedig	Ionawr/Chwefror 2027

Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon – naill ai yn ôl enw'r gangen, y côd post neu'r côd unigryw ar gyfer y gangen **465642**

Sut i rannu eich barn:

Hyb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)

comments@postoffice.co.uk

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn
yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a
anfonir drwy Rhadbost yn cymryd dau
ddiwrnod gwaith. Caniatewch ddigon o
amser i ymatebion gael eu derbyn.

Eisiau dweud wrthym
beth rydych chi'n ei
feddwl, yma nawr?
Sganiwch fan hyn.

Os nad oes gennych
sganiwr codau QR ar eich
ffôn, gallwch gael hyd i un



Mae'n dda gwybod

- Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn man gwasanaeth cynllun-agored, modern sydd yn rhan o gownter y siop.
- Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem yn addasu tu mewn y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau er mwyn gwneud lle i'r Swyddfa Bost. Byddai mewn rhan neilltuol o'r siop gydag un safle â sgrin ac un â chynllun agored.
- Byddai'r gangen yn cynnig yr un cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post a'r un oriau agor y mae ein cwsmeriaid yn gyfarwydd â nhw.
- Byddai'r holl staff a gyflogid i weithio yn y gangen newydd arfaethedig yn cael eu hyfforddi l'r safonau uchaf gyda hyfforddiant parhaus ynghylch cynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion yn ymwneud a'r gwasanaeth.
- Nawr bydd posteri a thafleuni yn cael eu harddangos yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid am yr argymhellad ac i ofyn am eu barn.
- Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried yn ofalus wrth i ni gwblhau ein cynlluniau.
- Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar ddiwedd yr ymgynghori er mwyn ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen.
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyson â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a gafodd eu cytuno gyda Chyngor ar Bopeth, Grŵp Defnyddwyr yr Alban a Chyngor Cyffredinol y Defnyddwyr ar gyfer Gogledd Iwerddon, sef cyrff eiriolaeth statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae darn sy'n berthynol i Ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai'n fuddiol pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a gydag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol o fewn y gymuned – er enghraifft, ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr i ddeall y newidiadau a argymhellir gennym i Swyddfa Bost Uplands. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni. Mae ein manylion cyswllt ar frig y dudalen hon.

Diolch i chi am ystyried ein hargymelliad.

Yr eiddoch yn gywir,

Sarah Cottrell

Sarah Cottrell

**Rheolwraig Newidiadau Manwerth Rhanbarthol
Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

Mae Swyddfa'r Post yn darparu Cynllun Trawsnewid uchelgeisiol dros gyfnod o bum mlynedd tan 2030 er mwyn cael rhwydwaith cenedlaethol modern y gellir ymddiried ynddo ac sydd yn gynaliadwy o ran cyllid.

I ddysgu mwy, [cliciwch yma](https://corporate.postoffice.co.uk). (corporate.postoffice.co.uk – chwiliwch 'ein cynllun trawsnewid').

Crynodeb Gwybodaeth Swyddfa Bost Uplands

Mae yna adegau pan fydd ein canghennau efallai yn gorfod newid eu horiau agor. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Lleoliad Cyfredol	Lleoliad newydd arfaethedig																												
4-6 Sgwâr Gwydr, Uplands, Abertawe, SA2 0HD	29 Cilgant Uplands (a arferai fod yn Rainbow), Uplands, SA2 0NX																												
Yr oriau agor presennol <table><tr><td>Llun</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Mawrth</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Mercher</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Iau</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Gwener</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Sadwrn</td><td>09:00 – 17:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun	08:30 – 18:00	Mawrth	08:30 – 18:00	Mercher	08:30 – 18:00	Iau	08:30 – 18:00	Gwener	08:30 – 18:00	Sadwrn	09:00 – 17:00	Sul	Ar Gau	Oriau Agor Arfaethedig <table><tr><td>Llun</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Mawrth</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Mercher</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Iau</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Gwener</td><td>08:30 – 18:00</td></tr><tr><td>Sadwrn</td><td>09:00 – 17:00</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar Gau</td></tr></table>	Llun	08:30 – 18:00	Mawrth	08:30 – 18:00	Mercher	08:30 – 18:00	Iau	08:30 – 18:00	Gwener	08:30 – 18:00	Sadwrn	09:00 – 17:00	Sul	Ar Gau
Llun	08:30 – 18:00																												
Mawrth	08:30 – 18:00																												
Mercher	08:30 – 18:00																												
Iau	08:30 – 18:00																												
Gwener	08:30 – 18:00																												
Sadwrn	09:00 – 17:00																												
Sul	Ar Gau																												
Llun	08:30 – 18:00																												
Mawrth	08:30 – 18:00																												
Mercher	08:30 – 18:00																												
Iau	08:30 – 18:00																												
Gwener	08:30 – 18:00																												
Sadwrn	09:00 – 17:00																												
Sul	Ar Gau																												
Cynhyrchion a Gwasanaethau																													
Byddai'r un cynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.																													
Mannau Gwasanaeth																													
Byddai dau fan gwasanaeth I gyd: un â sgrîn a'r llall yn gownter cynllun-agored.																													
Mynediad																													
Ar hyn o bryd, mae stepen wrth y fynedfa l'r adeilad arfaethedig, ond, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, câi ramp parhaol ei osod wrth y fynedfa er mwyn gwella hygyrchedd i gwsmeriaid. Y tu mewn, ceid dolen glyw, desg gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn.																													
Cyrraedd yno																													
Byddai'r adeilad arfaethedig tua 130 metr l ffwrdd o'r gangen gyfredol, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio ar hyd Cilgant Uplands lle mae mannau parcio i bobl anabl. Mae modd parcio am gyfnod cyfyngedig ar Deras Uplands. Mae bysus lleol yn gwasanaethu'r ardal o gwmpas ac mae yna arhosfan bysus y tu allan l'r adeilad arfaethedig.																													
Y siop	Siop gyfleustra																												

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn Ymgynghori – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post yn barhaol⁵
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreinio cangen â Rheolaeth Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos⁶ er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid, cynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr, ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os penderfynir bwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd ac i mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

postofficeviews.co.uk
Comments@postoffice.co.uk
FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

⁵ Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post arall yn yr ardal.

⁶ Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.